OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2041 (Cy. 147 )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 58 a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**)

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000, a deuant i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Cymru) 1999(**3**)

### Diwygio'r prif Reoliadau

**3.**—(1) Diwygir y prif Reoliadau yn unol â'r paragraffau canlynol.

(2) Yn Rheoliad 2(1), ar ôl y diffiniad o "person dynodedig" rhowch —

"ystyr "Rheoliadau 1993" yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993; (**4**)

(3) Yn Rheoliad 3(1), yn lle "ac 1 Ebrill 2002", rhowch —

", 1 Ebrill 2002, 1 Ebrill 2003 a 1 Ebrill 2004.".

(**1**) 1988 p.41. Diwygiwyd adran 143(2) gan baragraff 72(2) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Diwygiwyd paragraff 3(2) o Atodlen 6 gan baragraff 38(13) o Atodlen 5 i Ddeddf 1989.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/3454 (Cy.51).
(**4**) Diwygiwyd O.S. 1993/291 gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/792 (Cy.29)).

(4) Yn Rheoliad 8, ar ôl paragraff (4), rhowch —

"(5) Yn y blynyddoedd perthnasol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2003 a 1 Ebrill 2004, cyfrifir y swm y gellir ei godi yn unol â darpariaethau Rhan III o'r Ddeddf.".

(5) Yn Rheoliad 10, ar ôl paragraff (3), rhowch —

"(4) Os yw'r swm a geir drwy gymhwyso'r fformwla a nodir ym mharagraffau (2) a (3) yn llai na'r swm a geid drwy gyfrifo'r swm y gellir ei godi am ddosbarth perthnasol ar gyfer yr hereditament hwnnw yn unol â darpariaethau Rhan III o'r Ddeddf, y swm a gyfrifir yn unol â Rhan III o'r Ddeddf fydd y swm y gellir ei godi am ddiwrnod perthnasol ar gyfer yr hereditament hwnnw.

(5) Yn y blynyddoedd perthnasol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2003 a 1 Ebrill 2004 cyfrifir y swm y gellir ei godi yn unol â darpariaethau Rhan III o'r Ddeddf.".

(6) Ar ôl Rheoliad 10, rhowch –

"**10A.** Mae Rheoliad 10B yn gymwys i hereditament diffiniedig os yw'r amod yn Rheoliad 9 wedi'i fodloni ac nad yw adrannau 43(5), 43(6A) neu 45 o'r Ddeddf yn gymwys ar 31 Mawrth 2000.

**10B.**—(1) Os elusen neu ymddiriedolwyr elusen sy'n talu'r ardrethi a bod yr hereditament diffiniedig yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu yn bennaf at ddibenion elusennol, ceir y swm y gellir ei godi drwy rannu'r swm a gyfrifir yn unol â rheoliad 10 â 5.

(2) Os yw adran 43(6B) o'r Ddeddf (siopau cyffredinol etc. mewn aneddiadau gwledig) yn gymwys mewn perthynas â'r hereditament diffiniedig, ceir y swm y gellir ei godi drwy rannu'r swm a gyfrifir yn unol â rheoliad 10 â 2.

(3) Os yw'r amodau yn adran 45(1) o'r Ddeddf (eiddo nad yw wedi'i feddiannu) wedi'u bodloni mewn perthynas â'r hereditament diffiniedig, ceir y swm y gellir ei godi drwy rannu'r swm a gyfrifir yn unol â rheoliad 10 â 2, neu mewn achos lle mae adran 45(6) (hereditamentau elusennau nad ydynt wedi'i meddiannu) yn gymwys, â 10.".

(7) Yn Rheoliad 12(2), yn lle "2001" rhowch –"2005".

(8) Ar ôl Rheoliad 12, rhowch —

"**13.** Pan wneir newid yn y gwerth ardrethol a ddangosir mewn rhestr ar 1 Ebrill 2000, a bod y newid hwnnw yn effeithiol o ddyddiad diweddarach yn unol â darpariaethau Rheoliad 13A(2) o Reoliadau 1993, yna bydd darpariaethau Rheoliad 11(1) yn gymwys."(**5**)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D Elis Thomas*
19 Gorffennaf 2000 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) Mewnosodwyd Rheoliad 13A gan Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/792 (Cy.29)).

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Cymru) 1999 ("y prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas ag ardrethi annomestig o dan Ran III o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ar gyfer y symiau y gellir eu codi ac y mae'r sawl sy'n talu'r ardrethi yn atebol i'w talu o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod pryd y mae'r prif Reoliadau'n gymwys i gynnwys y blynyddoedd ariannol a fydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2003 a 1 Ebrill 2004 ac yn pennu'r rheolau ar gyfer penderfynu ar y swm y gellir ei godi yn y blynyddoedd hynny.

Maent hefyd yn diwygio Rheoliad 10 o'r prif Reoliadau er mwyn cyfyngu ar y gostyngiad yn y swm y gellir ei godi o dan rai amgylchiadau .

Mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apelau yn erbyn ardystio o dan y prif Reoliadau wedi'i ymestyn o 1 Ebrill 2001 i 1 Ebrill 2005.

Pennir y dyddiadau effeithiol ar gyfer penderfynu ar y symiau y gellir eu codi yn unol â Rheoliadau 8 a 10 o'r prif Reoliadau drwy gyfeirio at Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 1993 lle gwneir newidiadau i'r gwerth ardrethol a ddangosir mewn rhestr yn unol â'r Rheoliadau hynny.